

CYNGOR CYMUNEDOL LLANGYNNWR

Cyfleoedd Cyfartal

Mae mudiadau yn gyfrifol am hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac am wrthwynebu gwahaniaethu. Wrth wneud hynny, mae mudiadau yn chwarae rhan bositif mewn annog ymarfer da.

Polisi Cyfleoedd Cyfartal Enghreifftiol

1. Datganiad o fwriad

Bwriad *Cyngor Cymunedol Llangynnwr* yw hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ar bob lefel o fewn y mudiad ac yn ei holl weithgareddau er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion ar unrhyw rai o'r seiliau canlynol:

- Iaith
- Rhyw
- Tras Ethnig
- Statws Priodasol
- Cenedl
- Cred Grefyddol neu Wleidyddol
- Anableddau Corfforol neu Feddyliol
- Firws imiwnoddiffyg dynol (HIV) neu AID
- Nam ar y Synhwyrâu
- Tueddfryd Rhywiol
- Lliw
- Cyfrifoldeb Gofal yn y Cartref
- Cefndir Cymdeithasol neu Economaidd
- Oed
- Statws Iechyd
- Euogfarnau Digysylltiad

Mae Cyngor Cymunedol Llangynnwr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i wrth-wahaniaethu ac yn benodol:

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

Y Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970

Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976

Y Ddeddf Adfer Troseddwyr 1974

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975

Y Côt Ymarfer ar Gofnodion Troseddol

2. Nodau cyffredinol

Mae gan Gyngor Cymunedol Llangynnwr nodau cyffredinol penodol yn ei fwriad i hyrwyddo a gweithredu cyfleoedd cyfartal

- **Swyddi**
Ni ddylai aelod presennol na darpar aelod o'r staff wynebu gwahaniaethu, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, yn y gweithdrefnau hysbysebu a recriwtio, neu oherwydd difyg cyfleusterau arbennig ar gyfer pobl aganableddau neu'r rhai sydd â nam ar eu synhwyrau. Darperir cymorth a chefnogaeth ar gyfer gweithwyr sydd yn mynd yn anabl i'w galluogi i barhau yn eu swyddi, lle bo hynny yn briodol.
- **Gwirfoddoli**
Mae Cyngor Cymunedol Llangynnwr yn ymrwymedig i arfer da o ran gwirfoddoli yn unol â gweithdrefnau recriwtio a chyflogi gweithwyr.
- **Ymarfer**
Bydd Cyngor Cymunedol Llangynnwr yn sicrhau bod ei holl wasanaethau ar gael yn gyfartal a'r un mor hygyrch i bob unigolyn mewn cymdeithas.

3. Monitro ac Adolygu

Caiff y Polisi Cyfleoedd Cyfartal ei adolygu a'i fonitro yn rheolaidd er mwyn iddo barhau yn effeithiol.

- Bydd gan un a enwir (y cyfarwyddwr yn arferol) gyfrifoldeb cyffredinol am Gyfleoedd Cyfartal ac am eu monitro a'u hadolygu.

4. Strategaeth

- Rhoddir hyfforddiant a chyngor ynglŷn â Cyfleoedd Cyfartal er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu.
- Bydd pob deunydd a gyhoeddir, gan gynnwys hysbysebion recriwtio, yn anwahaniaethol.
- Caiff y strategaeth Cyfleoedd Cyfartal ei harddangos yn gyhoeddus o fewn y mudiad

5. Cwynion

- Dylid cyfeirio cwynion sydd gan unigolion neu grwpiau ynglŷn ag unrhyw fater y credant ei fod yn sail i wahaniaethu at (corff a enwir neu aelod o'r staff).

6. Ymarfer

- Bydd pob aelod o Gyngor Cymunedol Llangynnwr yn dal at yr ymrwymiad a bennwyd i gyfleoedd cyfartal ac yn cydymffurfio ag ef.